Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanbedrgoch
# Llanbedrgoch
# Ynys Môn
# LL76 8SX

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2013**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wledig, fechan hon wedi ei lleoli ym mhentref Llanbedrgoch ger arfordir dwyreiniol Môn. Disgrifir yr ardal fel un nad yw yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.

Ar hyn o bryd, mae 57 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys naw o oed meithrin. Mae niferoedd y disgyblion wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Derbynnir disgyblion yn rhan amser ar ddechrau'r Medi sydd yn dilyn eu trydydd pen-blwydd ac yn llawn amser y Medi sydd yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae 16% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, canran sy'n is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r holl ystod gallu. Mae 12 ohonynt (21%) ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan yr un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw tua 65% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2001.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf yn Hydref 2006.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanbedrgoch yn 2012-2013 yw £4,468. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £10,188 a'r lleiafswm yw £2,842. Mae Ysgol Gynradd Llanbedrgoch yn safle 23ain o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod bron pob disgybl yn datblygu medrau dwyieithog yn llwyddiannus;
- bod y disgyblion yn derbyn ystod o brofiadau dysgu o ansawdd da;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau da iawn tuag at ddysgu; a
- bod yr ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygiad pellach yr ysgol sydd yn ffocysu ar wella safonau;
- bod cydweithio effeithiol rhwng holl staff yr ysgol;
- bod prosesau monitro'r ddarpariaeth yn dylanwadu'n gyson ar gynllunio strategol;
- bod mentrau diweddar wedi arwain at welliannau mewn agweddau ar y dysgu; a
- bod y corff llywodraethol yn ymgymryd â'i rôl a'i gyfrifoldebau yn effeithiol.

## Argymhellion

R1 Mireinio trefniadaeth ddosbarth y Cyfnod Sylfaen i sicrhau bod y gweithgareddau yn cynnig her briodol yn gyson i'r disgyblion

R2 Gwella ansawdd yr adborth ysgrifenedig a gynigir i ddisgyblion a lledaenu'r arfer dda o ddisgyblion yn gwella'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion

R3 Cryfhau'r cynllun datblygu drwy gynnwys camau gweithredu clir a thargedau meintiol i fesur cynnydd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Oherwydd ffactorau megis niferoedd bychain a chanran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd y ddau gyfnod gyda gofal.

Tros eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Yn 2012, mae'r canran o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru ym mhob maes. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran y disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim.

Tros bedair blynedd, mae'r canran o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig yn y Gymraeg a'r Saesneg yn debyg neu yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. Maent yn anwastad mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae tueddiad ar i lawr yng nghanlyniadau 2012, sy'n gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran yr hawl i ginio am ddim. Mae canlyniadau'r ysgol gan amlaf yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Gan eithrio datblygiad mathemategol, mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn well na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn well na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion yn y mwyafrif o flynyddoedd.

Yn gyffredinol, nid oes yna wahaniaeth sylweddol rhwng cyflawniad merched a bechgyn, ac eithrio'r lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2, lle mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau personol.

Oherwydd niferoedd bychain, nid oes modd sefydlu patrwm clir o ran cymharu cyraeddiadau disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim gyda rheini sydd heb yr hawl.

Ar draws y dosbarthiadau, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad am eu gwaith yn hyderus gan fynegi eu hunain yn glir a chywir, ac yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol a'i gymhwyso'n effeithiol i sefyllfaoedd newydd, yn arbennig y disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau darllen. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gywir gyda mynegiant priodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn rhugl ac

yn ystyrlon yn y Gymraeg a’r Saesneg. Gallant drafod y prif gymeriadau a’r digwyddiadau yn y storiau y maent wedi eu darllen gyda dealltwriaeth dda. Mae eu hymwybyddiaeth o awduron Cymreig yn llai sicr.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu’n annibynnol mewn gwahanol gyd-destunau gyda chywirdeb cynyddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n aeddfed a chywir mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae’r disgyblion hŷn yn arbennig yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig yn effeithiol mewn pynciau eraill.

Ar draws y dosbarthiadau, mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a’u medrau ymchwilio yn effeithiol i’w cynorthwyo gyda’u gwaith thema. Maent yn arddangos medrau gweithio’n annibynnol ac mae hyn yn gryfder amlwg ym mhen uchaf yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Mae pob disgybl yn gwrtais a pharchus at ei gilydd ac at oedolion. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda o sut i fyw a bwyta’n iach, ac o werth ymarfer y corff a ffitrwydd.

Y mae’r diddordeb a’r agwedd bositif y mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos at eu dysgu yn gryfder amlwg. Maent yn cyd-weithio’n adeiladol gyda’i gilydd ac yn rhannu safbwyntiau’n dda. Maent yn gwneud ymdrech fawr i gwblhau eu gwaith ac yn awyddus i barhau gyda’u tasgau.

Mae’r cyngor ysgol, sy’n gweithredu hefyd fel cyngor eco, yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae gwaith y cyngor wedi arwain at sicrhau gardd i dyfu llysiau, cyfraniadau at elusennau, a phwyntiau gweithredu yng nghynllun datblygu’r ysgol.

Mae medrau cymdeithasol a phersonol y disgyblion yn dda. Cymerant ran lawn mewn cyngherddau, eisteddfodau a gweithgareddau cymunedol. Mae ymddygiad y rhan fwyaf mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd diwethaf yn y 25% uchaf o’u cymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu effeithiol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae’r cynlluniau gwaith yn ymateb yn briodol i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a’r Cyfnod Sylfaen. Mae’r athrawon yn cydweithio i gynllunio rhaglenni hyblyg sy’n ymateb i anghenion a diddordebau’r disgyblion.

Mae’r ysgol yn cynllunio yn bwrpasol ar gyfer datblygu’r medrau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn gallu cymhwyso eu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn ystod o gyd-destunau yn effeithiol, yn arbennig erbyn brig yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig wedi ei wreiddio ar draws yr ysgol. Mae'r holl staff yn cynnig modelau iaith da sy'n hyrwyddo datblygiad y Gymraeg yn effeithiol iawn. Mae'r ymweliadau a'r gweithgareddau allgyrsiol yn atgyfnerthu a chefnogi'r dysgu ac yn dyfnhau ymdeimlad y disgyblion o fod yn perthyn i'r gymuned y maent yn rhan ohoni.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn effeithiol drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau penodol, megis yr ardal arddio. Mae cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd eang trwy'r cwricwlwm, gweithgareddau Masnach Deg, casglu arian at achosion da a dathlu diwrnodau rhyngwladol.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn a gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu pwrpasol i arwain y dysgu. Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau lle mae'r addysgu yn effeithiol, ceir ffocws clir ar adeiladu ar waith blaenorol, holi ysgogol a chyfleoedd ymarferol i'r disgyblion weithio mewn parau a grwpiau. Ym mhen uchaf yr ysgol, mae nodweddion rhagorol yn y modd y mae'r addysgu yn datblygu medrau'r disgyblion gyda lefel uchel o her ac anogaeth. Mae'r medrau a'r testunau yn cael eu gosod yn gelfydd yng nghyd-destun bywyd bob dydd y disgyblion.

Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw trefniadaeth gweithgareddau yn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod y disgyblion yn cael eu herio'n ddigon cyson ym mhob maes.

Mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu'r gwersi gyda'r disgyblion yn fanwl ac yn cynnig adborth llafar effeithiol. Nid yw'r adborth ysgrifenedig bob amser yn nodi'n ddigon clir yr hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella eu dysgu. Mae yna ddefnydd effeithiol o rai strategaethau asesu ar gyfer dysgu ond nid yw'r arfer o ddisgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn annibynnol wedi ei ddatblygu'n llawn ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn asesu a lefelu gwaith yn briodol trwy brosesau cymedroli a safoni. Mae'n gwneud defnydd effeithiol o asesiadau i dracio cynnydd disgyblion ac i ddarparu cefnogaeth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth am gynnydd a chyflawniad eu plant trwy adroddiadau priodol a chyfarfodydd rheolaidd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes a chroesawgar lle mae ansawdd y gofal yn dda. Anogir disgyblion i fwyta'n iach ac mae cyfleoedd eang i gynyddu lefel eu ffitrwydd a'u hiechyd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn effeithlon ac yn sicrhau bod disgyblion a rhieni'n ymwybodol o'r disgwyliadau.

Mae datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei feithrin yn effeithiol drwy brofiadau dyddiol yn yr ysgol, ymweliadau a themâu cwricwlaidd. Mae'r sesiynau cyd-addoli yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion. Mae'r cysylltiadau adeiladol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol yn sicrhau cefnogaeth briodol i'r disgyblion a'r staff.

Mae cynllunio manwl a chymorth cyson yn sicrhau gofal a darpariaeth dda iawn i'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn darparu cynlluniau addysgu unigol sy'n gosod targedau clir, penodol a mesuradwy. Caiff y rhain eu hadolygu a'u monitro'n gyson ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a theuluol, lle mae'r holl ddisgyblion yn cael mynediad i gwricwlwm eang a diddorol. Mae'r ethos cynhwysol a'r parch amlwg rhwng staff a disgyblion yn gryfder. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth gymdeithasol.

Mae'r adeilad a'r cyfleusterau allanol wedi eu datblygu'n dda ac yn cael eu defnyddio i'r eithaf i hybu dysgu'r disgyblion. Maent yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth yn cyfrannu at greu amgylchedd ysgogol. Mae ystod o adnoddau da sydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth a gwerthoedd cadarn sy'n seiliedig ar sicrhau safonau da a darpariaeth addysgol werthfawr i'r disgyblion. Mae'n rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda'r disgyblion, aelodau'r staff a'r llywodraethwyr ac maent i'w gweld yn amlwg ar lawr y dosbarth. Mae cyfleoedd rheolaidd i bartneriaid yr ysgol gael eu cynnwys mewn trafodaethau sydd yn arwain at benderfyniadau ar ddatblygiad pellach yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol yn effeithiol. Mae gan yr aelodau wybodaeth dda o berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o'r heriau a wynebir. Mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n briodol drwy ymweliadau â'r ysgol i arsylwi ar agweddau ar y ddarpariaeth a thrafodaethau gyda'r staff a'r pennaeth.

Rhoddir sylw addas i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn dylanwadu'n briodol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae cydweithio effeithiol gydag ysgolion lleol i wella safonau addysg y disgyblion, yn arbennig medrau darllen. Mae athroniaeth y Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu ac mae sylw da i ddatblygiad medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y pennaeth a'r llywodraethwyr ddealltwriaeth sicr o brif gryfderau a gwendidau'r ysgol. Maent yn cyd-drafod perfformiad yr ysgol drwy ddadansoddi

data, derbyn cyflwyniadau gan athrawon ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Mae'r ysgol yn gofyn barn disgyblion a rhieni am agweddau ar y ddarpariaeth ac yn ystyried yn ofalus unrhyw awgrymiadau a wnânt. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cynhyrchiol o weithgareddau monitro gan gynnwys trafod data, arsylwi gwersi, craffu ar waith y disgyblion a chynnal arfarniadau o agweddau penodol megis safonau darllen ac ysgrifennu.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth bresennol ac, ar y cyfan, yn adnabod agweddau priodol i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae cysylltiad amlwg rhwng y broses hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys adolygiad o'r cynllun blaenorol a thargedau priodol sy'n canolbwyntio ar godi safonau. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredol yn ddigon clir na meintiol i gynorthwyo'r ysgol i fesur cynnydd.

Mae trefniadau da ar waith ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach y staff, gan gynnwys cymorthyddion, sy'n eu harfogi â medrau newydd i ddatblygu dulliau ar gyfer dysgu ac addysgu.

Mae gan yr ysgol ymrwymiad cryf i weithio fel cymuned ddysgu broffesiynol, gyda hyn wedi arwain at ymestyn medrau darllen y disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio ar y cyd ag ysgolion eraill yn lleol mewn perthynas â hybu medrau darllen ac asesu ar gyfer dysgu. Nid yw'r ysgol eto wedi sefydlu cysylltiadau ag ysgolion y tu hwnt i'r dalgylch lleol er mwyn rhannu a datblygu arfer broffesiynol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau sy'n ymestyn y ddarpariaeth ac yn cyfrannu at godi safonau disgyblion.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â'r rhieni ac yn sicrhau eu bod yn cyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Mewn ymateb i geisiadau gan y cyngor ysgol, mae rhieni wedi bod yn helpu â mentrau fel gwella'r amgylchedd allanol ac agor cyfrif banc.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol gydag ysgolion eraill y dalgylch lleol. Mae'r cydweithio â dwy ysgol gyfagos wedi cyfrannu at wella trefniadau'r ysgol ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae disgyblion yn elwa o'r cydweithio agos â'r ysgol uwchradd leol ar agweddau bugeiliol. Mae trefniadau priodol ar gyfer cymedroli asesiadau athrawon ond nid yw'r trefniadau i sicrhau dilyniant a pharhad o ran cwricwlwm ac addysgu adeg trosglwyddo i'r ysgolion uwchradd wedi datblygu cystal.

Mae partneriaethau buddiol gyda nifer o gyrff ac asiantaethau eraill, yn cynnwys yr Amgueddfa Genedlaethol ar brosiect yn ymwneud â safle o ddiddordeb archeolegol ar dir Cogfryn. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig lleoliadau i oedolion ag anableddau trwy drefniant gydag asiantaeth 'Agoriad'.

Mae staff yn canolbwyntio'n dda ar gynllunio a darparu adnoddau ar y cyd yn yr ysgol ac mae hyn yn cyfrannu at godi safonau a lles disgyblion.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â'i gwaith yn effeithiol.  Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae'r ysgol yn bodloni gofynion y cytundeb baich gwaith ac mae defnydd priodol o amser di gyswllt athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith disgyblion. Mae'r drefn sefydlog o reoli perfformiad staff yn cynnig cyfleoedd addas ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae cydbwysedd a dealltwriaeth dda rhwng y llywodraethwyr a'r pennaeth wrth ddiffinio cyfrifoldebau ariannol.  Mae'r gyllideb yn rhoi trosolwg clir o'r cynlluniau ariannol sydd wedi'u cysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol yn rhannu costau, megis trafnidiaeth i dripiau a chostau cwmnïau theatr, gydag ysgolion eraill fel bod y disgyblion yn elwa o brofiadau na fedrai'r ysgol ei hun ei chynnig.

Mae safonau'r disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu da yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Oherwydd ffactorau megis niferoedd bychain a chanran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd y ddau gyfnod gyda gofal.

Yn asesiadau athrawon 2012, mae canran y disgyblion saith oed sy’n cyflawni’r lefelau disgwyliedig o ran medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg; datblygiad mathemategol; a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn uwch na chyfartaleddau’r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru ym mhob maes a asesir.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch, sef ‘Deilliant 6’, yn uwch na’r teulu yn y Gymraeg ac o ran datblygiad personol a chymdeithasol ond yn is mewn mathemateg. Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran y canran o ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae’r canran o ddisgyblion sy’n cyflawni’r Dangosydd Cyfnod Sylfaen, sef cyfuniad o’r canlyniadau, yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion. Mae’r ysgol yn y 25% uchaf o ran cyflawni’r deilliant uwch yn y Gymraeg ac o ran datblygiad personol a chymdeithasol ond yn y 25% isaf o ran datblygiad mathemategol.

Yn asesiadau 2012, nid oes yna wahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched o ystyried mai dim ond un bachgen oedd o fewn y fintai.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau disgyblion 11 mlwydd oed tros bedair blynedd yn anwastad ac yn dangos tueddiad ar i lawr. Mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd (lefel 4 mewn cyfuniad o’r canlyniadau mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn is na chyfartaleddau’r teulu o ysgolion tebyg a’r awdurdod lleol mewn tair allan o’r pedair blynedd ddiwethaf ac yn is na Chymru mewn dwy. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 4 yn y Gymraeg a Saesneg ar wahân wedi bod yn uwch yn y rhan fwyaf o’r blynyddoedd. Mae’r canlyniadau yn fwy anwastad mewn gwyddoniaeth ac yn arbennig mewn mathemateg. Mewn mathemateg, mae canlyniadau’r ysgol wedi bod yn is na chanlyniadau’r teulu am dair allan o’r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn 2012, roedd canlyniadau’r ysgol o ran y canran o ddisgyblion sy’n cyflawni’r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn is na chanlyniadau’r teulu. O gymharu gydag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sy’n hawlio cinio am ddim, mae’r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion. Tros bedair blynedd, mae canlyniadau’r ysgol yn amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf o ysgolion tebyg.

Mae canran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel uwch, sef lefel 5, yn anwastad ond yn gyffredinol uwch na chyfartaleddau’r teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru yn y mwyafrif o flynyddoedd, yn arbennig yn y Gymraeg a mathemateg. Maent yn fwy anwastad mewn Saesneg a gwyddoniaeth. Gwelir cynnydd amlwg yn y ddwy flynedd ddiwethaf gan eithrio gwyddoniaeth.

Nid oes yna wahaniaeth sylweddol rhwng cyflawniad merched a bechgyn o ran y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni lefelau 4. Er hyn, mae yna batrwm clir bod merched yn cyflawni'n well na'r bechgyn o ran cyrraedd lefelau pump ar draws y pynciau.

Nid oes patrwm amlwg rhwng canlyniadau'r disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim a'r disgyblion sydd heb yr hawl oherwydd y niferoedd bychain.

Mae canlyniadau asesiadau medrau llythrennedd disgyblion 11 oed yn anwastad. Mae canlyniadau medrau llafar Cymraeg yn debyg neu yn is na chyfartaleddau'r teulu. Mae canlyniadau ysgrifennu yn amrywio tra bod medrau darllen yn uwch na'r teulu mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canlyniadau medrau Saesneg y disgyblion yn is na chyfartaleddau'r teulu mewn llafar ac ysgrifennu ond yn uwch mewn darllen mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhawyd 40 o holiaduron gan rieni. Maent i gyd yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol. Mae pawb o'r farn fod yr addysgu yn dda a bod yr athrawon yn disgwyl i'w plant weithio'n galed. Credant fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau. Dywedant eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod eu plant yn gwneud cynnydd priodol a'u bod yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r farn fod yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg a bod y gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â thrafod unrhyw fater gyda'r ysgol ac yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae pawb o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 26 o ddisgyblion yr holiadur. Mae pawb yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel. Credant fod yna ddigon o lyfrau ac offer. Maent i gyd yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu i fod yn iach ac mae bron pob un o'r farn bod digon o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pawb o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae bron pob un yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth. Mae llawer yn credu fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol. Mae'r mwyafrif yn credu bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac mae bron pob un yn credu eu bod yn ymddwyn yn dda amser chwarae a'r egwyl ginio. Mae pawb o'r farn fod yr ysgol yn delio â bwlio'n dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Emma Rofe | Arolygydd Cofnodol |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Meinir Lloyd Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eleri Edwards | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.